

DEUNYDD ADDOLI DECHRAU'R FLWYDDYN



GWEDDI AR DDECHRAU'R OEDFA

Dduw graslon

Deuwn atat ar ddechrau blwyddyn arall yn ein hanes,
yn unigolion, yn deuluoedd ac yn eglwys.

Rydym am ddathlu'r dechrau newydd a'r bennod ffres a rhoddaist i ni.

Boed i'r newydd-deb ddangos ei hun yn ein bywydau
heddiw ac ar hyd y flwyddyn hon.

Mae'r gorffennol y tu ôl i ni,
a'r dyfodol yn ein galw ymlaen.

Helpa ni i fyw pob dydd fel dy rodd di,
wedi ein meithrin yng nghariad Crist,
a'n hadnewyddu trwy'r Ysbryd Glan.

Maddau'r hyn a fuom,
a chyfarwydda'r hyn a fyddwn.

Trwy Iesu Grist ein Harglwydd

AMEN

DARLLENIADAU'R SUL: Salm 8 a Philipiaid 2: 1-1



MYFYRDOD

Tebyg fod llawer ohonom wedi rhannu profiad y Salmydd ar ddechrau Salm 8. Wrth ddod wyneb yn wyneb a'r greadigaeth yn rhyfeddu at ei mawredd, ond hefyd yn arswydo at ein bychander.

Dyma brofiad un person, “Rhai blynyddoedd yn ôl roeddwn i’n byw mewn pentref bach gwledig yng ngorllewin Cymru, ac un o’r pethe olaf fyddwn i’n gwneud gyda’r nos oedd mynd â’r ci am dro drwy’r pentref. Ar lawer ystyr dyna oedd adeg gorau’r dydd. Popeth yn dawel. Dim ond fi a Gwenno’r ci, ac anaml fyddwn i’n gweld un enaid byw arall.

Ambell noson glir, roedd yn braf sefyll ac edrych i fyny ar awyr y nos a syllu ar y sêr. Meddwl bod bydysawd y tu ôl i bob seren. Pob seren yn haul, a phlanedau yn troi o’i chwmpas. Mor bell i ffwrdd fel bod rhai ohonynt wedi hen farw pan oeddwn i’n syllu arnynt, jyst bod eu golau yn cymryd cymaint o amser i deithio ataf.

Weithiau, os byddwn i allan yn hwyrach nag arfer, byddai golau’r stryd yn diffodd am hanner nos. Gan fod y rhan fwyaf o bobl gall wedi mynd i’r gwely erbyn hynny doedd dim golau tai ymlaen. Wrth gyfarwyddo â’r tywyllwch roedd mwy o sêr yn dod i’r amlwg. Ces brofiad tebyg yn un o wledydd y trydydd byd mewn ardal oedd heb drydan. Roedd gweld awyr y nos yn llawn sêr yn ddigon i’m syfrdanu!”

Efallai ein bod ni wedi cael profiadau digon tebyg ein hunain.

Mae yna stori am ymwelydd o un o wledydd De America yn dod i Lundain, ac wedi treulio noson yno, yn dweud, ‘Mae’ch goleuadau chi wedi dwyn y sêr oddi arna’i.’ Roedd yn methu gweld y sêr a welai adref oherwydd holl olau artiffisial y ddinas. Mae hynny’n werth myfyrio arno, a ninnau newydd fod trwy sbloets y Nadolig. Pa mor rhwydd yw gweld seren y Nadolig, pan fod cymaint ohonom wedi ein dallu gan oleuadau John Lewis, Tesco, Amazon a’r gweddill?

Rhyfeddu mae’r Salmydd at fawredd y cyfan - ‘mae dy ysblander yn gorchuddio’r nefoedd yn gyfan.’

Ond gyda’r rhyfeddod daw cwestiwn, ‘Wrth edrych allan i’r gofod, a gweld gwaith dy fysedd, y lleuad a’r sêr a osodaist yn eu lle. Beth ydi pobl i ti boeni amdanynt nhw? Pam cymryd sylw o un person dynol?’ Dyma gwestiwn y mae llawer ohonom siwr o fod wedi ei ystyried wyneb yn wyneb â mawredd y greadigaeth. Beth sy’n gwneud i mi feddwl mod i’n bwysig? Oes posib fy mod i’n cyfrif wyneb yn wyneb a’r aruthredd rwy’n gweld? Lle ydw i’n ffitio i mewn, yn ehangder y greadigaeth? Pwy ydw i?

Mae ‘Pwy ydw i?’ yn un o gwestiynau mawr bywyd. Sut mae deall yr hunan a dod o hyd i’n hunaniaeth? Mae’r ysfa i’w ateb yn gryf heddiw, efallai mwy nag erioed. Ai oherwydd bod cymaint o’r hen fframweithiau traddodiadol, sicr a dibynadwy, oedd yn rhoi hunaniaeth i bobl, bellach yn ymddangos fel petai nhw’n methu?

I lawer ohonom mae’n siŵr roedd sail ac ystyr bywyd yn dod o bethau roeddem yn eu cymryd yn ganiataol, am eu bod yn rhan annatod o’n bywydau bob dydd. Duw, crefydd, canllawiau moesol clir, teulu estynedig, cymunedau lleol cryf. Dyma’r pethau allweddol oedd yn rhoi gwerth ar ein bywydau ac yn helpu llunio ein syniad o ‘Pwy ydw i.’ Ond erbyn hyn mae cymaint ohonynt wedi methu neu wedi eu gwrthod.

I’r mwyafrif, mae’n ymddangos bod y syniad o Dduw yn annelwig ar y gorau. I lawer o bobl, mae crefydd yn rhywbeth i’w amau neu hyd yn oed ei wrthod. Mae cymaint o foesoldeb yn dir niwlog. Mae’r uned deuluol wedi mynd yn fwy cyfyng a chymunedau lleol cryf yn lleihau.

Gallwn ni ddim chwaith anwybyddu’r amheuaeth a’r sinigiaeth sydd mor amlwg yn y bywyd cyfoes. Ble mae’ch prawf chi? Sut ydych chi’n gwybod bod hyn yn wir? Ble mae’r dystiolaeth dros ddweud hynny? Pa hawl sydd gyda chi i ddweud bod eich gwirionedd chi yn rhagori ar fy ngwirionedd i. Gelwir arnom i gwestiynu popeth, ac mewn awyrgylch felly beth sydd i’w wneud.

Mae rhai wrth gwrs wedi hen rhoi’r gorau i ofyn y cwestiwn. I lawer does dim ystyr, a dim pwynt chwilio amdano. Waeth i ni ollwng ein hunain i’r diystyr ddim. Mae eraill yn dod o

hyd i ystyr mewn pleser a boddhau'r hunan, ond mae llawer o hyd yn ysu i ddeall pwy ydw i, lle mae dod o hyd i fy hunaniaeth?

Beth am y Salmydd? Nid yw ef yn barod i dderbyn ei fod yn ddibwys, na chwaith yn ddim byd mwy na sbecyn o ddwst. Mae am gynnig ateb, a hynny'n ateb cadarnhaol, 'rwyf wedi'i wneud ond ychydig is na'r bodau nefol ac wedi'i goroni ac ysblander a mawredd.' (Salm 8:5).

Mae bywyd cyfoes yn gosod pwyslais mawr ar yr hunan. Rhaid i ti fod dy hunan, rhaid nabod dy hunan, rhaid caru dy hunan, rhaid plesio dy hunan, rhaid sefyll lan drosto dy hunan, rhaid gosod dy stamp dy hunan ac, yn fwy na dim, rhaid gwrthio dy hunan i'r tu blaen. Onid un o eiriau'r foment yw'r 'huanlun/selfie' - cymryd llun ohonoch chi'ch hunan? Mae'n dweud popeth am y pwysigrwydd a rhoddir i'r hunan o fewn y bywyd cyfoes.

Nid ein hannog i edrych i mewn mae'r Salmydd, ond i edrych allan. Mae'r un a wnaeth y bydysawd, meddai, hefyd wedi fy ngwneud i yn fod dynol, yn berson yn fy rhinwedd fy hun, yn unigryw. Rwyf wedi fy nghreu ar lun a delw Duw. Mae fy ngwerth i, fy hunaniaeth ynghlwm yn y pethau hyn. Peidiwch ag edrych tuag at eich hunan er mwyn deall pwy ydych chi, edrychwch allan. Edrychwch tuag at Dduw ac fe welwch fod gyda chi ynddo fe le allweddol o fewn y cread. Fanna mae fy nealltwriaeth o 'pwy ydwyf i?' yn dechrau.

Ac fel mae'r darlleniad o'r Llythyr at y Philipiadaid yn ein hatgoffa, rhaid edrych hefyd at Iesu. Yr un oedd yn, 'rhannu'r un natur a Duw.....ond dewisodd rhoi ei hun yn llwyr i wasanaethu eraill.....a bod yn ufudd hyd yn oed i farw - ie, drwy gael ei ddienyddio ar y groes.' (Philipiadaid 2:6-7)

Yn Iesu rydym yn gweld Duw am yr hyn ydyw, yn gariad. A gwelwn faint cariad Duw tuag at ei bobl, yn y parodrwydd i aberthu ei hun i'r eithaf er lles dynoliaeth. Mae ein dealltwriaeth o'r hyn ydym ynghlwm yn Iesu ac yn yr hyn a wnaeth trosom, ac yn Iesu fe welwn fod Duw yn gosod gwerth tragwyddol arnom.

Mae Duw wedi ein creu ni mewn cariad, ac mae wedi ein creu ni i fyw mewn cariad. Wrth edrych tuag at eraill, a dod i ddeall ein cysylltiad gydag eraill, a dyfnhau ein perthynas â nhw, y mae ein dealltwriaeth o'n hunain yn gallu tyfu a datblygu'n gryf ac yn iach, gan gyfoethogi ein bywydau ein hunain a chyfoethogi bywydau eraill. Wrth fyw mewn perthynas gyda Duw yn Iesu a gydag eraill rwy'n darganfod fy ngwir hunaniaeth.

'Dylai eich agwedd chi fod yr un math ac agwedd y Meseia Iesu (Philipiadaid 2:5)

Trwy garu, trwy gyfeillgarwch, mewn ymrwymiad i arall, wrth gydymdeimlo a chydgerdded, wrth uniaethu a cheisio deall, trwy gyd-ddioddef, yn union fel y dangosodd Iesu yn ei fywyd ef, byddaf yn darganfod fy hunaniaeth a'm lle a'm gwerth fel gwir blentyn i Dduw.

Pa ffordd well o ddechrau blwyddyn nag addunedu y byddwn, yn nerth Ysbryd Duw, yn ymrwymo ein hunain o'r newydd i'r cariad sydd yn Iesu a dilyn ei esiampl ef.

GWEDDI



O Dduw ein Tad, ar ddechrau'r flwyddyn newydd hon,
Edrych arnom yn dy gariad.
Deuwn atat yn llawen
gyda'n gobeithion a'n haddunedau,
ond deuwn hefyd gyda'n hofnau a'n hamheuon,
yn ymwybodol o'n gwendidau
ac o'n hangen am dy gymorth a'th arweiniad di.
Ar ddechrau blwyddyn newydd:
Arglwydd, clyw ein gweddi.

Edrych arnom wrth inni wneud ein gwaith,
a chynnal ein teuluoedd,
wrth inni droi ymhlith ein ffrindiau,
a mwynhau ein hamdden;
mewn llwyddiant a methiant,
mewn llawenydd a thristwch,
Ar ddechrau blwyddyn newydd:

Arglwydd, clyw ein gweddi.

Edrych ar dy eglwys,
wrth iddi garu, gofalu a gwasanaethu,
wrth iddi chwilio am ddulliau newydd o addoli
a rhannu'r newydd da.

Ar ddechrau blwyddyn newydd:

Arglwydd, clyw ein gweddi.

Edrych ar ein byd
yn ei amrywiaeth rhyfeddol a'i raniadau trist,
yn ei gyfoeth a'i dlodi,
yn ei gyd-fyw a'i derfysg.

Ar ddechrau blwyddyn newydd:

Arglwydd, clyw ein gweddi.

Rho dy bresenoldeb a'th dangnefedd
a chadw dy fyd yn ddiogel yn dy gariad.

Gofynnwn y cwbl yn enw Iesu Grist, yr hwn a'n dysgodd i weddio gan ddweud:
Ein Tad.....

EMYNAU POSIBL: 91, 79 a 70 (Caneuon Ffydd)

GWEDDI I ORFFEN

Am y breintiau a'r bendithion a roddaist i ni:
Am dy amddiffyn yn y gorffennol,
dy gwmni yn y presennol,
a'r addewid o'th arweiniad i'r dyfodol
rhown ein clod a'n mawl a'n haddolid i Ti.
Amen

AWGRYMIADAU PELLACH

SGWRS A CHWESTIWN

1. Trafodwch gyda'ch gilydd y Nadolig sydd newydd fod. Beth sy'n gwneud Nadolig da? Beth yw'r heriau mwyaf ynglŷn â'r wyl fodern? Beth sydd yn eich helpu chi i ddathlu 'Gŵyl y Geni?
2. Meddyliwch am y flwyddyn newydd. Beth fyddai'n gwneud blwyddyn dda i chi? Beth welwch chi yw'r heriau sy'n wynebu'r byd, eich eglwys a chi eich hun?

GWEITHGARWCH

Gwnewch restr o anghenion arbennig y gymuned lle mae eich eglwys, ac awgrymwch i'r eglwys weithgarwch newydd y gallai hi fod yn gwneud i geisio cwrdd ag un neu fwy o'r anghenion hynny.